# NDA Monthly Update

## August 2019

## Diary Dates

**18 September:** NDA supplier day for R&D contracts, west Cumbria

**18 September:** NDA Group Safety and Wellbeing Awards

**19 September:** Sellafield Game Changer robotic day, Energus, Cumbria

**8-9 October**: Integrated Waste Management Forum, Penrith

**10 October:** World Mental Health Day

**December:** Nuclear Industry Association (NIA) annual conference

## Summary


- Suppliers invited to R&D contracts event
- Scottish event celebrates diversity
- NDA's £495,000 pledge to Anglesey plan
- NDA publishes annual report and accounts
- New approach to reporting on NDA mission
- RWM Managing Director to retire
- NDA Chairman to step down
- Date for next NDA supply chain event
- Latest from £8.5 million R&D competition
- Landmark achievement for LLWR
- Explaining Sellafield complexities
- Welsh event focuses on NDA progress
- Sellafield supports education programme
- Dounreay in metal recycling trials


## Suppliers invited to R&D contracts event

A process is under way to award new NDA R&D framework contracts, with suppliers invited to find out more at an information day on 18 September in Cumbria. The contracts are part of the NDA's Direct Research Portfolio (DRP) work, which focuses on finding innovative solutions to technical challenges, developing high-level technical skills and influencing strategy.

Weblink: Event for R&D suppliers

## Scottish event celebrate equality and diversity

This year's Mey Highland Games, sponsored by the NDA, celebrated equality and diversity, and were the first of their kind to welcome adaptive athletes. NDA Chief Executive David Peattie presented three new trophies to the top female, male and adaptive athletes.  STEM ambassadors from Dounreay were on hand to promote their work to inspire young people into science, technology, engineering and maths.

Weblink:  Equality takes centre stage at Scottish games

## £495,000 pledge to North Anglesey economic plan

The NDA announced funding support of £495,000 to help support the County Council's North Anglesey Economic Regeneration Plan and create new economic opportunities on the island. Chief Executive David Peattie made the announcement at the third annual NDA Stakeholder Summit, which was held Coleg Menai in Llangefni. Around 200 visitors from across the UK and overseas attended the two-day event. The funding will contribute to measures aimed at boosting business activity, the supply chain and employment, increasing tourism, improving transport and infrastructure and reviving the High Street.

Weblink: NDA's pledge to Anglesey plan

## NDA publishes annual report and accounts

The NDA's annual report and accounts for 2018/19 reviews a year of progress towards the mission of cleaning up and decommissioning the UK's 17 oldest nuclear sites. The reports shows good progress continues to be made, while spending has remained below the annual budget set by government.  The NDA exceeded revenue targets, generating income of £1 billion to supplement the £2.2 billion government allocation.

Weblink: Annual accounts published

## Mission progress reporting

The NDA has also launched a new approach to reporting on the progress of its mission, demonstrating how much has been achieved since 2005, and how much further remains to complete over the next 120-plus years.. The focus is on the four themes outlined in the 2016 Strategy that are common across all NDA sites and enable achievements to be measured.

Weblink:  Mission progress reporting

## RWM Managing Director to retire

Bruce McKirdy, the Managing Director of NDA subsidiary Radioactive Waste Management, has announced that he will retire and leave the organisation in March 2020.  Bruce has worked in the NDA since 2006, and became the first MD of RWM when it was established in 2014.

Weblink: Retirement announced

## NDA chairman to step down

NDA Chairman Tom Smith has decided not to seek a further term on the NDA Board when his term ends in February 2020. Tom will step down after seven years on the Board, with three of those as Chairman. The Department for Business, Energy and Industrial Strategy (BEIS) has started the recruitment process for his successor.

Weblink: Chairman to step down

## Extension for Sellafield clean-up contract

A framework contract which helps deliver Sellafield's decommissioning programme has been extended after three years of success. The Decommissioning Delivery Partnership (DDP) was established in 2016 and involves 17 supply chain companies working with Sellafield Ltd across 3 lots. Together they demolish redundant buildings, clean up land and remove waste from the site's legacy ponds and silos. The partnership, which has so far delivered £385 million of project work, has been extended until 2026.

Weblink: Sellafield partnership extended to 2026

## New date and venue for supply chain event

The NDA's hugely successful annual supply chain event is being moved to a new location in the Midlands, and will next take place during the summer of 2020. Now in its ninth year, the event has been an overwhelming success in engaging with the suppliers who are so essential to achieving our decommissioning mission. Since launching in the North West, the event has attracted a total of around 10,000 visitors from more than 20 countries, representing thousands of companies both large and small. The next event will be held on 18 June 2020 at the International Centre, Telford.

Weblink: Hold the date for next NDA supplier event

## Fascinating to see research projects become reality

As the £8.5 million Integrated Innovation in Nuclear Decommissioning (IIND) competition heads into the final stages, NDA Head of Technology Melanie Brownridge invited the 5 collaborative projects to outline their work. The competition, organised jointly with Innovate UK, was launched in 2017 and aims to find a single, seamless solution to access some of the most radioactive hotspots at Sellafield, then retrieve and package the waste contents.

Weblink: Projects move from drawing board to reality

## Landmark success in diverting waste from repository

A landmark achievement was reached when the 11,000th container of Low Level Waste (LLW) was diverted from disposal at the UK's Low Level Waste Repository (LLWR). From 2010 onwards, large quantities of LLW have been sent for alternative treatments and disposal, such as metal

recycling, rather than disposal at the repository. Without diversion, the newest vault, which opened in 2010, would already have reached capacity.

Weblink: 11,000 containers diverted

## Explaining Sellafield complexities

The NDA's Mark Wareing explains why Sellafield's legacy ponds and silos are some of the most complex and difficult decommissioning challenges in the world, and the progress being made in emptying their contents. The four facilities date back to the 1950s, the start of the UK nuclear industry, and have accumulated large quantities of hazardous waste and other contents over the decades.

Weblink:  Turning the corner to exciting times

## Welsh event focuses on NDA mission progress

An event at the Welsh Assembly showcased the NDA's decommissioning mission for communities and businesses across Wales. Hosted by Trawsfynydd Assembly Member Lord Dafydd Elis Thomas, the event welcomed over 50 stakeholders inlcuding suppliers, Welsh Assembly and Government, trade unions, councils and community organisations, colleges and training providers.

Weblink: Event hosted for Welsh stakeholders

## Sellafield launches transformative education programme

A transformative education programme has been launched in west Cumbria, aiming to raise standards in the region's classrooms. Sellafield Ltd and the NDA are funding the £1.7 million WELL programme, which stands for Western Excellence in Learning and Leadership. Developed by Cumbria County Council and the Cumbria Alliance of System Leaders (CASL), WELL aims to raise achievements, improve teaching and attendance, and enhance student well-being.

Weblink: the WELL programme

## Dounreay recycling trial opens door for future

Dounreay has teamed up with waste and recycling specialists to trial an alternative treatment option for the site's waste metal. Four large objects weighing a total of 66 tonnes were sent to a specialist facility for recycling as part part of a feasibility study considering a different low level waste metal treatment route for recycling bulk metal items, rather than disposing of them in the site's low level waste vaults.

Weblink: Metal recycling trial

# Diweddariad Misol yr NDA

## Awst 2019

## Crynodeb

- Gwahoddiad i Gyflenwyr i ddigwyddiad contractau Ymchwil a Datblygu (R&D)
- Digwyddiad yn yr Alban yn dathlu amrywiaeth
- Addewid yr NDA o £495,000 i gynllun Ynys Môn
- Cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr NDA
- Dull newydd o adrodd ar genhadaeth yr NDA
- Rheolwr Gyfarwyddwr RWM i ymddeol
- Cadeirydd yr NDA i roi'r gorau iddi
- Dyddiad ar gyfer digwyddiad cadwyn gyflenwi yr NDA
- Y diweddaraf o gystadleuaeth R & D gwerth £8.5 miliwn
- Cyflawniad hynod y Storfa Gwastraff Lefel Isel (LLWR)
- Esbonio cymhlethdodau Sellafield
- Digwyddiad Cymreig yn canolbwyntio ar gynnydd yr NDA
- Sellafield yn cefnogi rhaglen addysg
- Dounreay yn cynnal profion ailgylchu metelau

## Dyddiadau i'r Dyddiadur

**18 Medi:** Diwrnod cyflenwyr ar gyfer contractau R & D, gorllewin Cumbria

**18 Medi:** Gwobrau Diogelwch a Lles Grŵp yr NDA

**19 Medi:** Trobwynt Sellafield - diwrnod robotig, Energus, Cumbria

8-9 Hydref: Fforwm Rheoli Gwastraff Integredig, Penrith

**10 Hydref:** Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd

**Rhagfyr:** Cynhadledd flynyddol Cymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA)

## Gwahoddiad i Gyflenwyr i ddigwyddiad contractau Ymchwil a Datblygu (R&D)

Mae proses yn mynd rhagddi i ddyfarnu contractau fframwaith R & D newydd yr NDA, gyda chyflenwyr yn cael eu gwahodd i ddarganfod mwy mewn diwrnod gwybodaeth ar 18 Medi yn

Cumbria. Mae’r contractau’n rhan o waith Portffolio Ymchwil Uniongyrchol yr NDA, sy’n canolbwyntio ar ddarganfod atebion arloesol i heriau technegol datblygu sgiliau technegol lefel uchel a dylanwadu ar strategaethau.

Dolen we: Digwyddiad i gyflenwyr R&D

## Digwyddiad yn yr Alban yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth

Roedd Gemau’r Ucheldir ym Mey eleni, a noddir gan yr NDA, yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth, a dyma’r digwyddiad cyntaf o’i fath i groesawu athletwyr anabl gydag addasiadau. Cyflwynodd Prif Weithredwr yr NDA David Peattie dri thlws newydd, sef i’r athletwyr benywaidd a gwrywaidd gorau ac i’r athletwr gorau gydag addasiadau. Roedd llysgenhadon STEM o Dounreay wrth law i hyrwyddo’u gwaith ac ysbrydoli pobl ifanc ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

Dolen we: Cydraddoldeb yn hawlio’r llwyfan mewn gemau yn yr Alban

## Addewid o £495,000 i gynllun economaidd Gogledd Môn

Cyhoeddodd yr NDA gymorth o £495,000 i helpu i gefnogi Cynllun y Cyngor Sir sef Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn a chreu cyfleoedd economaidd newydd ar yr ynys. Gwnaed y cyhoeddiad gan y Prif Weithredwr David Peattie yn nhrydedd Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid flynyddol yr NDA, a gynhaliwyd yng Ngholeg Menai yn Llangefni. Roedd dros 200 o ymwelwyr o bob cwr o’r DU ac o wledydd tramor yr bresennol yn y digwyddiad deuddydd. Bydd y cyllid yn cyfrannu tuag at fesurau wedi’u hanelu at roi hwb i weithgarwch busnes, y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth, gan gynyddu twristiaeth, gwella trafnidiaeth a seilwaith ac adfywio’r Stryd Fawr.

Dolen we: Addewid yr NDA i gynllun Môn

## Cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr NDA

Mae adroddiad a chyfrifon blynyddol yr NDA ar gyfer 2018/19 yn adolygu blwyddyn o gynnydd tuag at genhadaeth o lanhau a datgomisiynu 17 o safleoedd niwclear hynaf y DU. Dengys yr adroddiad y gwneir cynnydd da o hyd, tra bo gwariant wedi bod yn is na’r gyllideb flynyddol a bennwyd gan y llywodraeth. Aeth yr NDA y tu hwnt i dargedau refeniw, gan gynhyrchu incwm o £1 biliwn i ategu dyraniad y llywodraeth o £2.2 biliwn.

Dolen we: Cyhoeddi’r cyfrifon blynyddol

## Adrodd ar gynnydd y genhadaeth

Mae’r NDA hefyd wedi lansio dull newydd o adrodd ar gynnydd ei genhadaeth, gan ddangos faint a gyflawnwyd ers 2005, a faint mwy sydd eto i'w gwblhau dros yr 120 o flynyddoedd nesaf a mwy. Mae'r ffocws ar y pedair thema a amlinellwyd yn Strategaeth 2016 sy’n gyffredin ar draws holl safleoedd yr NDA ac yn galluogi mesur cyflawniadau.

Dolen we: Adrodd ar gynnydd y genhadaeth

## Rheolwr Gyfarwyddwr RWM i ymddeol

Mae Bruce McKirdy, Rheolwr Gyfarwyddwr is-gwmni'r NDA, sef Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWM) wedi cyhoeddi y bydd yn ymddeol ac yn gadael y sefydliad ym Mawrth 2020. Mae Bruce wedi gweithio i'r NDA ers 2006, ac ef oedd Rheolwr Gyfarwyddwr cyntaf RWM pan gafodd ei sefydlu yn 2014.

Dolen we: Cyhoeddi ymddeoliad

## Cadeirydd yr NDA i roi'r gorau iddi

Mae Cadeirydd yr NDA Tom Smith wedi penderfynu peidio â cheisio tymor pellach ar Fwrdd yr NDA pan fydd ei dymor yn dod i ben ym mis Chwefror 2020. Bydd Tom yn rhoi'r gorau iddi ar ôl saith mlynedd ar y Bwrdd, tair ohonynt fel Cadeirydd. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wedi dechrau'r broses recriwtio ar gyfer ei olynydd.

Dolen we: Cadeirydd i roi'r gorau iddi

## Estyniad i gontract glanhau Sellafield

Mae contract fframwaith sy'n helpu i gyflawni rhaglen datgomisiynu Sellafield wedi cael ei ymestyn yn dilyn tair blynedd o lwyddiant. Sefydlwyd y Bartneriaeth Cyflawni Datgomisiynu (DDP) yn 2016 ac mae'n golygu bod 17 o gwmnïau'r gadwyn gyflawni'n gweithio gyda Sellafield Ltd ar draws 3 o lotiau. Gyda'i gilydd, maent yn dymchwel adeiladau gwag, yn glanhau tir a chael gwared â gwastraff o hen byllau tanwydd a seilos ar y safle. Mae'r bartneriaeth, sydd wedi cyflawni gwaith prosiect gwerth £385 miliwn hyd yma, wedi cael ei hymestyn hyd 2026.

Dolen we: Partneriaeth Sellafield wedi'i hymestyn hyd 2026

## Dyddiad a lleoliad newydd ar gyfer digwyddiad y gadwyn gyflenwi

Mae digwyddiad blynyddol hynod lwyddiannus cadwyn gyflenwi'r NDA yn cael ei symud i leoliad newydd yng Nghanolbarth Lloegr, a bydd yn cael ei gynnal y tro nesaf yn ystod haf 2020. Bellach yn ei nawfed blwyddyn, bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol o ran ymgysylltu â'r cyflenwyr sydd mor hanfodol ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth datgomisiynu. Ers iddi gael ei lansio yn y Gogledd Orllewin, mae'r digwyddiad wedi denu cyfanswm o oddeutu 10,000 o ymwelwyr o dros 20 o wledydd, gan gynrychioli miloedd o gwmnïau mawr a bach. Cynhelir y digwyddiad nesaf ar 18 Mehefin 2020 yn y Ganolfan Ryngwladol, Telford.

Dolen we: Nodwch ddyddiad digwyddiad cyflenwyr nesaf yr NDA

## Diddorol gweld prosiectau ymchwil yn cael eu gwireddu

Wrth i gystadleuaeth £8.5 miliwn Arloesi ym maes Datgomisiynu Niwclear (IIND) gyrraedd ei chamau olaf, mae Pennaeth Technoleg yr NDA, Melanie Brownridge wedi gwahodd y 5 prosiect cydweithredol i amlinellu eu gwaith. Cafodd y gystadleuaeth, a drefnir ar y cyd ag Innovate UK, ei

lansio yn 2017, a’r nod yw darganfod un ateb di-dor i gael mynediad at rai o boethfannau mwyaf ymbelydrol Sellafield, yna mynd i nôl y cynnwys gwastraff a’i becynnu.

Dolen we: Prosiectau’n symud ymlaen o’r cam cynllunio i gael eu gwireddu

## Llwyddiant hynod o ran dargyfeirio gwastraff o storfa

Cyflawnwyd llwyddiant hynod pan gafodd y 11,000eg cynhwysydd o Wastraff Lefel Isel (LLW) ei ddargyfeirio o gael ei waredu yn Storfa Gwastraff Lefel Isel (LLWR) y DU. O 2010 ymlaen, mae symiau mawr o wastraff lefel isel wedi cael eu hanfon i’w trin a’u gwaredu fel arall, megis ailgylchu metelau, yn hytrach na chael eu gwaredu yn y storfa. Heb y dargyfeirio hwnnw, byddai’r gladdgell ddiweddaraf, a agorwyd yn 2010, eisoes yn llawn.

Dolen we: 11,000 o gynwysyddion wedi’u dargyfeirio

## Esbonio cymhlethdodau Sellafield

Mark Wareing o’r NDA yn esbonio pan fod hen byllau tanwydd a seilos Sellafield yn rhai o’r heriau datgomisiynu mwyaf cymhleth ac anodd yn y byd, a’r cynnydd sy’n cael ei wneud o ran gwagio’u cynnwys. Mae’r pedwar cyfleuster yn dyddio’n ôl i’r 1950au, sef dechrau’r diwydiant niwclear yn y DU, ac mae symiau mawr o wastraff peryglus a chynnwys arall wedi cronni ynddynt dros y degawdau.

Dolen we:  Troi’r gornel at gyfnod cyffrous

## Digwyddiad Cymreig yn canolbwyntio ar gynnydd gyda chenhadaeth yr NDA

Bu digwyddiad yn y Cynulliad Cenedlaethol yn arddangos cenhadaeth datgomisiynu’r NDA ar gyfer cymunedau a busnesau ledled Cymru.  Yn cael ei gynnal gael yr Aelod Cynulliad dros Drawsfynydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, croesawodd y digwyddiad dros 50 o randdeiliaid yn cynnwys cyflenwyr, Cynulliad a Llywodraeth Cymru, undebau llafur, cynghorau a sefydliadau cymunedol, colegau a darparwyr hyfforddiant.

Dolen we: Cynnal digwyddiad i randdeiliaid Cymru

## Sellafield yn lansio rhaglen addysg drawsnewidiol

Mae rhaglen addysg drawsnewidiol wedi cael ei lansio yng ngorllewin Cumbria, yn anelu at godi safonau yn nosbarthiadau’r rhanbarth. Mae Sellafield Ltd a’r NDA yn ariannu’r rhaglen gwerth £1.7 miliwn, sef rhaglen WELL sy’n golygu Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Arweinyddiaeth y Gorllewin. Wedi’i datblygu gan Gyngor Sir Cumbria  a Chynghrair Arweinwyr Systemau Cumbria (CASL), nod WELL yw cynyddu cyflawniadau, gwella addysgu a phresenoldeb a gwella llesiant myfyrwyr.

Dolen we: rhaglen WELL

## Prawf ailgylchu Dounreay yn agor drws i'r dyfodol

Mae Dounreay wedi ymuno ag arbenigwyr gwastraff ac ailgylchu i dreialu opsiwn gwahanol ar gyfer trin gwastraff metel y safle. Cafodd pedwar gwrthrych mawr yn pwyso cyfanswm o 66 tunnell eu hanfon i gyfleuster arbenigol ar gyfer eu hailgylchu fel rhan o astudiaeth dichonolrwydd sy’n ystyried llwybr trin gwahanol ar gyfer gwastraff metel lefel isel i ailgylchu eitemau metel swmp, yn hytrach na’u gwaredu yng nghladdgelloedd gwastraff lefel isel y safle.

Dolen we: treial ailgylchu metel